# ATODLEN 1

## TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**23.** Brics glo Jewel, a weithgynhyrchir gan Eldon Colliery Limited yn Newfield Works, Bishop Auckland, County Durham—

(a) sy'n cynnwys glo caled (sef rhyw 30 i 50 y cant o'r cyfanswm pwysau) a golosg petrolewm Long Beach (sef rhyw 50 i 70 y cant o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr carbohydrad (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 150°C;

(c) sy'n frics glo siâp gobennydd heb eu marcio ac sy'n pwyso 33 gram ar gyfartaledd; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy nag 1.5 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.